

Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Conwy
(Parc Cae Seion/Bangor Road Conwy)
(Gwahardd Aros) 2019

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan Adrannau 1 a 2 o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984, y bydd ei effaith yn gwahardd cerbydau rhag aros ar unrhyw adeg ar y darnau o ffordd a nodir yn yr Atodlen isod.

Bydd eithriadau'n cael eu darparu yn y Gorchymyn arfaethedig er mwyn caniatáu aros i bwrpas dod allan o gerbyd, mynd i mewn i gerbyd, llwytho, dadlwytho a gwaith cynnal a chadw, trwsio ac yn y blaen. Bydd eithriadau yn y Gorchymyn arfaethedig hefyd i ganiatáu i gerbydau sy'n arddangos Bathodyn Person Anabl a Disg Parcio i Bobl Anabl.

Gellir archwilio copi o'r Gorchymyn, ynghyd â map sydd yn dangos y darnau ffordd y mae'r Gorchymyn bwriedig yn berthnasol iddynt, a datganiad o resymau'r Cyngor dros gwneud y Gorchymyn, yn Llyfrgell Conwy ac yn swyddfeydd Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu, Bodlondeb, Conwy, yn ystod oriau agor/swyddfa arferol ac ar wefan y Cyngor.

Dylid anfon unrhyw wrthwynebiadau i'r Gorchymyn bwriedig, ynghyd â'r rhesymau drostynt, ar bapur at yr Adran Draffig, Yr Amgylchedd Ffyrdd a Chyfleusterau Swyddfeydd Mochdre Ffordd Mochdre Mochdre Bae Colwyn LL28 5AB neu at traffig@conwy.gov.uk erbyn 25 Hydref 2019.

Atodlen - Dim aros ar unrhyw adeg

Ffordd Sam Pari	Yr ochr ogleddol; O'i chyffordd â Bangor Road i'w chyffordd â Ffordd Sam Pari. Yr ochr ddwyreiniol; o'i chyffordd â Pharc Cae Seion am bellter o 12 metr i gyfeiriad y de-orllewin.
Parc Caer Seion	Y ddwy ochr; O'r gyffordd â Pharc Caer Seion am bellter o 48 metr i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain Yr ochr ddeheuol; O bwynt 15 metr i'r dwyrain o'i chyffordd yn agos at Tan y Graig am bellter o 27 metr i gyfeiriad y gorllewin.
Bangor Road	Yr ochr ddwyreiniol; o'i chyffordd â Ffordd Sam Pari am bellter o 40 metr i gyfeiriad y gogledd. Yr ochr ogleddol. O'i phen eithaf gorllewinol am bellter o 32 metr i gyfeiriad dwyreiniol. Yr ochr ddeheuol. O'i phen eithaf gorllewinol am bellter o 45 metr i gyfeiriad y dwyrain

Dyddiedig: 25 Medi 2019



Delyth E Jones
Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu